

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R CABINET DROS ADNODDAU

DYDD Mawrth, 7 Medi 2021

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: D.M. Jenkins (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

A Thomas, Rheolwr Budd-daliadau Treth y Cyngor
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.20 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 GORFFENAF 2021.

PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2021, gan ei fod yn gywir.

3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

4. TRETH Y CYNGOR - GOSTYNGIADAU YN ÔL DISGRESIWN

Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion a oedd yn talu'r dreth gyngor ac roedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad o dan baragraff 14 o Atodlen 12A i Ddeddf 1972 yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn gan y byddai datgelu yn arwain at ymyriadau gormodol i fywyd preifat a bywyd teuluol yr unigolyn dan sylw.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar y ceisiadau oedd wedi dod i law am ostyngiadau yn ôl disgrisiwn i'r Dreth Gyngor.

Nodwyd bod rheoliadau wedi eu cyflwyno, gan ddod i rym ym mis Ebrill 2004, a roddai bwerau disgresiwn i Awdurdodau Lleol roi disgownt neu ostyngiad a benderfynwyd yn lleol o ran y Dreth Gyngor, a bod y rhain yn ychwanegol at y gostyngiadau statudol presennol.

PENDERFYNWYD:

- 4.1 dyfarnu 25% o eithriad disgresiynol o'r dreth gyngor a godir ar gais cyfeirnod 6011825 am y cyfnodau 14.6.19 – 31.3.20 a 1.4.20 i 26.1.21**
- 4.2 Dyfarnu eithriad disgresiynol un diwrnod o'r Dreth Gyngor ar gyfer 28 Mehefin 2020 mewn perthynas â'r ceisiadau canlynol:**
- 60371568-X, 60371569-9, 60371572-3, 60371574-1, 60371575-0, 60371576-X, 60371585-9 a 60371587-7.**

5. CYFRIFON NA ELLIR EU HADFER - DYLEDION AMRYWIOL

Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unigolyn (Paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Er y byddai'r budd i'r cyhoedd fel rheol yn ffafrio tryloywder a diffuantrwydd, roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r eithriad yn drech na hynny oherwydd y byddai datgelu'n arwain at ymyriadau gormodol a heb gyfiawnhad i fywyd preifat a bywyd teuluol yr unigolyn dan sylw.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar gyfrif y nodwyd nad oedd modd ei adennill. Yr oedd yr holl weithdrefnau adennill wedi cael eu defnyddio, lle'r oedd hynny'n briodol, ac nid oedd dim tebygolrwydd y byddai modd cael y taliadau. Felly, bernid ei bod yn briodol dileu'r cyfrif hwn.

PENDERFYNWYD dileu'r ôl-ddyledion, fel yr oeddid wedi manylu arnynt yn yr adroddiad, am nad oedd modd eu hadennill.

6. CYFRIFON NA ELLIR EU HADFER - TRETH Y CYNGOR

Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig sy'n ymwneud â materion

ariannol neu fusnes unigolyn (Paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Er y byddai'r budd i'r cyhoedd fel rheol yn ffafrio tryloywder a diffuantrwydd, roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r eithriad yn drech na hynny oherwydd y byddai datgelu'n arwain at ymyriadau gormodol a heb gyfiawnhad i fywyd preifat a bywyd teuluol yr unigolyn dan sylw.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar gyfrif y Dreth Gyngor y nodwyd nad oedd modd ei adennill.

PENDERFYNWYD dileu ôl-ddyledion y Dreth Gyngor, fel yr oeddid wedi manylu arnynt yn yr adroddiad, am nad oedd modd eu hadennill.

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL

DYDDIAD